

Ymateb Cymdeithas yr Iaith ym Môn i'r Cynllun Adnau – Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn ar y Cyd

Cefais drafferth mawr gyda cheisio cyflwyno sylwadau ar-lein trwy'r porth ymgynghori. Nid yw'n system hwylus i'w lawrlwytho. Nid oedd fy nghyfrifiadur i yn gallu gwneud pen na chynffon o'r ffurflen sylwadau wrth geisio'i lawrlwytho. Gobeithio nad yw hyn yn rhwystro pobl rhag ymateb i ddogfen faith ond anfoddhaol.

Hoffwn ddechrau trwy roi'r holl gynlluniau datblygu lleol yn eu cyd-destun ehangach. Mae'r holl ffigyrau am dai ychwanegol wedi cael eu gyrru i lawr o Lywodraeth San Steffan i Lywodraeth Cymru ac yna i awdurdodau unedol unigol Cymru. Dyna'r gwall sylfaenol sy'n tanseilio gwerth y Cynllun Adnau. Mae'n mynd yn gwbl groes i ysbryd datganoli grym o Lundain. Hyd yn oed os oes angen miloedd o dai newydd mewn rhannau o Loegr, yn bennaf yn y dinasoedd a'r trefi, nid yw'n dilyn bod yr un anghenion twf yng Nghymru. Yn wir, ar sail cyfrifiad 2011 nid oes tystiolaeth bod twf ym mhoblogaeth gogledd orllewin Cymru. Mae'r cyfanswm o 7902 o dai newydd ar gyfer Gwynedd a Môn rhwng hyn a 2026 yn seiliedig ar batrymau twf yn y gorffennol, heb gymryd i ystyriaeth y dirwasgiad economaidd a'n tarodd yn 2007-8 trwy gwymp banciau. Er bod gwleidyddion yn ymffrostio bod yr economi ar i fyny yn ne ddwyrain Lloegr, y gwir yw nad yw'r economi wedi dod allan o'r dirwasgiad yng Nghymru. Gyda £30 biliwn pellach o doriadau sector cyhoeddus wedi'u cynllunio gan y dair brif blaid Brydeinig, nid oes unrhyw ragolygon y bydd diwedd ar y dirwasgiad.

Y ffactor arall yn tarddu o bolisi Llywodraeth San Steffan sy'n gyrru'r Cynllun Adnau hwn yw'r posibilrwydd o godi adweithyddion niwclear newydd yn y Wylfa gan Hitachi/Horizon. Mae'r cyfeiriadau at Wylfa Newydd yn britho'r ddogfen drwyddi draw. Dyfynnaf un paragraff o 5.4 sy'n crynhoi sut mae cynghorau Môn a Gwynedd yn derbyn yn gibddall bod y prosiect enfawr hwn yn mynd i ddigwydd:-

“Mae'r Orsaf Niwclear Newydd yn y Wylfa yn sbardun ar gyfer trawsnewid yr economi a chymunedau yn Ynys Môn a fydd yn darparu gwaith cynaliadwy, yn gwella ansawdd bywyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac yn hyrwyddo hunaniaeth a nodweddion unigryw lleol.”

A ydych yn credu o ddifrif y bydd dau adweithydd niwclear mawr fyddai'n cynhyrchu gwastraff niwclear dwy waith poethach a dwy waith mwy ymbelydrol na'r gwastraff o adweithyddion niwclear presennol y Wladwriaeth Brydeinig a'i storio am 160 o flynyddoedd o leiaf ar safle'r Wylfa yn “gwella ansawdd bywyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol”? Mae'r gosodiad y byddai codi Wylfa B “yn hyrwyddo hunaniaeth a nodweddion unigryw lleol” yn un syfrdanol. Ar ba sail allwch chi wneud y fath osodiad.? Wnewch chi ddarparu tystiolaeth sy'n sail i'r gosodiad?

Ac ymhellach yn 6.27:-

“mae achos cryf dros fod yn obeithiol o fewn ardal y Cynllun sy'n gysylltiedig â'r gyflogaeth gynyddol sylweddol ddigynsail ddisgwyliedig yn sgil adeiladu Wylfa Newydd.”.

Mae'n rhaid cwestiynu cadernid Cynllun Adnau sy'n seiliedig i raddau mor helaeth ar effaith un datblygiad posibl. Dylech fod yn ymwybodol o'r gyfres o ergydion a

ddioddefodd y diwydiant niwclear ar draws Ewrop ers dechrau 2015. Yn gyntaf ym mis Ionawr, bu'n rhaid i lywodraeth glymblaid San Steffan ddiswyddo'r consortiwm sector preifat oedd yn rheoli, neu'n hytrach yn camreoli safle ailbroesu a storio gwastraff niwclear Sellafield. Ar ben hynny, clywodd Pwyllgor Awdit San Steffan bod cost dadgomisiynu Sellafield wedi cynyddu o £48 biliwn i £53 biliwn yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn gryno, mae problemau enfawr gyda cheisio rheoli'r gwastraff a gynhyrchwyd gan y diwydiant Niwclear Prydeinig dros y 60 mlynedd diwethaf, heb sôn am greu gwastraff dwy waith poethach a dwy waith mwy ymbelydrol o adweithyddion niwclear newydd fyddai'n defnyddio uraniwm dwysach fel tanwydd. Mae economeg rheoli'r gwastraff hanesyddol yn milwrio yn erbyn buddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o adweithyddion. Mae'n amlwg nad ystyriwyd hynny o gwbl wrth lunio'r Cynllun Adnau.

Ym mis Chwefror, cyhoeddwyd bod Llywodraeth Awstria gyda chefnogaeth Llywodraeth Luxembourg yn bwriadu herio penderfyniad Comisiynwyr yr Undeb Ewropeaidd i gymeradwyo'r cytundeb ariannol rhwng Llywodraeth San Steffan a chwmni EdF parthed codi dau adweithydd niwclear newydd yn Hinkley Point, yn Llys Cyfiawnder Ewrop. Gall y gweithredu cyfreithiol hyn gymryd o leiaf tair blynedd. Byddai Hitachi/Horizon yn chwilio am bris taro ffafriol a hael yn yr un modd ag EdF gan Lywodraeth San Steffan.. Os bydd Awstria a Luxembourg yn llwyddo gyda'u her gyfreithiol, dyna fydd diwedd unrhyw freuddwyd gan y Wladwriaeth Brydeinig i godi adweithyddion niwclear newydd. Yng nghyswllt y Cynllun Adnau eto, nid ydych wedi cymryd i ystyriaeth beth sy'n digwydd ar hyn o bryd yn Ewrop chwaith, a bod y llanw'n troi yn erbyn ynni niwclear. Mae posibilrwydd gwirioneddol na fydd Wylfa Newydd yn cael ei godi o gwbl gan adael eich holl ragolygon a rhagamcanion angen tai yn chwilfriw. Eich gobaith a'ch derbyniad slafaid bod Wylfa B yn mynd i ddigwydd yw gyrrwr economaidd canolog eich Cynllun Adnau.

O'r 7902 o dai a nodir ar gyfer eu hadeiladu hyd at 2026, disgwylir i 3817 ohonynt fod ym Môn. Dangosir lefelau twf syfrdanol ar gyfer Caergybi, Amlwch a Llangefni. Mewn cyfnod o gynydd economaidd a thoriadau dwfn yn arian y sector cyhoeddus, sut mae modd cyfiawnhau lefel twf dangosol o 833 cartref newydd i Gaergybi, 673 ar gyfer Llangefni a 533 ar gyfer Amlwch? Mae trafodaeth yn mynd rhagddi am ad-drefnu addysg gynradd yng Nghaergybi. Ai diwerth hollol fyddai'r drafodaeth honno gyda channoedd o dai newydd yn cael eu codi yng Nghaergybi. Un ysgol gynradd sydd yn Amlwch. Gyda 533 tŷ newydd yn cael eu codi yno, fyddai angen codi ysgol newydd? Mae dwy ysgol gynradd sy'n llawn yn barod yn Llangefni. Pe bai 673 tŷ newydd yn cael eu codi yno, i ble byddai'r plant o'r cartrefi newydd hyn yn mynd i gael eu haddysg?

Yn ardal y Fenai, rhagwelir lefel twf dangosol o 115 o dai ym Mhorthaethwy a 82 yn Llanfairpwll. Y pryder yma trwy nodi safle Ty Mawr ger Llanfairpwll fel un i'w ddatblygu yw y gwelir bwyta i mewn i'r tir gwyrdd rhwng y ddau le. Mae'n rhaid gofyn yma eto oes lle yn y ddwy ysgol ar gyfer rhagor o blant? Hefyd yn ardal y Fenai, mae'r ffigwr o 96 tŷ ar gyfer Biwmares yn edrych yn uchel. Eto dyma enghraifft o lyncu tir gwyrdd i gyfeiriad Llanfaes.

Mae grŵp o gymunedau a fu'n gadarnleoedd traddodiadol i'r Gymraeg dan fygthiad gan y Cynllun Adnau. Nodir hwy yma gyda'r lefel twf dangosol wrth eu hochrau:-

Gaerwen 58
Bodedern 57
Llannerch-y-medd 40
Gwalchmai 40
Niwbwrch 40
Bodffordd 16
Bryngwran 19 er bod 22 yn y banc tir presennol
Brynsiencyn 22
Dwyran 20 er bod 28 yn y banc tir presennol
Llanfachraeth 21
Llanfechell 18 er bod 21 yn y banc tir presennol
Llangaffo 15
Rhosybol 18
Talwrn 16
Aberffraw 16
Llanddona 16
Llanfaelog 16
Malltraeth 12

Mae'r holl ffigyrau uchod yn ddigon i leihau canran siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau. Mae'r ffigyrau ar gyfer Bodedern, Gaerwen, Gwalchmai, Llannerch-y-medd a Niwbwrch yn rhai sylweddol a allai wneud gwahaniaeth mawr i'r ganran siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hynny.

Mae cymunedau craill wedyn lle cafwyd erydu ar ganran y siaradwyr Cymraeg dros y 40 mlynedd diwethaf, ond sy'n dal i feddu ar ganran arwyddocaol o siaradwyr Cymraeg. Nodir y rhain eto gyda'r lefel twf dangosol wrth eu hochrau:-

Benllech 90
Y Fali 84
Cemaes 81
Rhosneigr 70
Pentraeth 57
Caergciliog 16
Llandegfan 22
Penysarn 22
Llangoed 21
Moelfre 24

Mae cysgod Wylfa B yn drwm ar y datblygu posibl yn y cymunedau hyn. Yr enghreifftiau mwyaf eithafol yw Benllech, Y Fali, Cemaes, Rhosneigr a Phentraeth. O'r ffigwr o 90 uned ar gyfer Benllech, cwblhawyd 40 uned yn barod, a bu cryn wrthwynebiad yn lleol i un datblygiad mawr yno tua 2007. 13 uned sydd yn y banc tir poresennol a 37 uned yn nifer ychwanegol dangosol sydd ei angen. Allan o 84 uned yn Y Fali, mae 32 uned yn y banc tir presennol a 39 uned yn nifer ychwanegol dangosol. Allan o 70 uned yn Rhosneigr, mae 17 uned yn y banc tir presennol a 37 uned ychwanegol dangosol. Ym Mhentraeth, cwblhawyd 22 uned, mae 13 uned yn y banc tir presennol a 22 uned ychwanegol dangosol. Yr enghraifft fwyaf eithafol yw Cemaes lle cwblhawyd 3 uned, mae 7 uned yn banc tir presennol a 71 UNED

YCHWANEGOL DANGOSOL SYDD EI ANGEN. Dyma brawf digamsyniol mai tai ar gyfer gweithwyr adeiladu Wylfa fyddai'r rhain. Yr ardal o Gemaes i lawr ar hyd arfordir dwyreiniol Môn mor bell â Llandegfan brofodd effaith Seisnigo gorsaf wreiddiol y Wylfa ar y cymunedau. Byddai'r duedd honno'n dwyshau o fabwysiadu'r ffigyrau twf hyn yn y Cynllun Adnau.

Nid ydym yn derbyn y Cynllun Adnau yn ei ffurf bresennol ogwbl. Ni chredwn eich bod yn dangos tystiolaeth gadarn bod galw cymunedol am y nifer o dai a nodir. Ni chredwn chwaith eich bod yn dangos tystiolaeth na fydd y datblygiadau tai yn niweidio sefyllfa'r Gymraeg yn gymunedol. Yn wir, argymhellwn eich bod yn dechrau o'r dechrau eto trwy gynnal astudiaethau ieithyddol manwl o bob cymuned ym Môn. Mae'r Cynllun Adnau fel y saif ar hyn o bryd yn siarter hwyluso i ddatblygwyr tai hapfasnachol. Nid yw cyflwr y Gymraeg yn ein cymunedau yn ystyriaeth o bwys gennych. Nid yw'r Cynllun Adnau chwaith yn cydnabod amodau economaidd dyrys ein cyfnod, dim ond yr hen ragdybiaeth ddiog o blaid twf economaidd. Yn olaf, ailadroddwn y pwynt mai'r gobaith am weld codi adweithyddion niwclear yn y Wylfa gyda mewnlifiad o filoedd o weithwyr adeiladu sy'n gyrru'r Cynllun adnau hwn ar gyfer Gwynedd a Môn. Cofier bod Horizon eu hunain wedi cyfaddef y byddai 75 i 80% o'r gweithlu adeiladu yn dod o'r tu allan i'r ardal leol. Diffiniad yr ardal leol yn yr achos hwn yw gogledd Cymru gyfan hyd at Sir Gaer a Glannau Merswy. Gydag 8000 o weithwyr ar y safle yn anterth y prosiect, gallai fod angen llety neu gartrefi ar hyd at 6500 o'r ffigwr hwnnw. Twyll yw ccisio honni felly y gallai prosiect Wylfa B fod o unrhyw fudd i ddyfodol y Gymraeg yng nghymunedau Môn a Gwynedd.

Cyfeiriwyd eisioes at y diffyg cydnabyddiaeth yn y Cynllun Adnau o amodau economaidd cyfredol a'r toriadau ariannol ar draws y sector cyhoeddus. Ni chredwn eich bod wedi cymryd i ystyriaeth y straen y byddai poblogaeth 7902 o gartrefi newydd yng Ngwynedd a Môn, sef tua 16000 o bobl ychwanegol yn ei gael ar ein gwasanaethau cyhoeddus. Gwelsom raglen ar S4C yn ddiweddar "Ysbyty dan Bwysau" am Ysbyty Gwynedd. Mae'r gwasanaethau yno'n gwegian fel y mae hi oherwydd y pwysau i wneud mwy gyda llai o arian. Yn yr un modd, byddai gwasanaethau'r cyngorau sir yn cael eu hestyn i'r eithaf, yn enwedig addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Byddai effaith sylweddol hefyd ar waith y gwasanaeth ambiwlans, tân a'r heddlu.

Trychineb fyddai mabwysiadu'r Cynllun Adnau hwn. Ni ddylid rhuthro i wneud hynny yn y gobaith y bydd wedi'i fabwysiadu'n derfynol erbyn diwedd 2016. Mae dyfodol ieithyddol a diwylliannol cymunedau Cymreiciaf Cymru yn y fantol. Ydy cyngorau Môn a Gwynedd yn fodlon eu bod yn hwyluso tranc y Gymraeg fel priod iaith y ddwy sir? Dyna fyddai canlyniad cymeradwyo Cynllun Adnau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

Dylan Morgan
Cymdeithas yr Iaith, Ynys Môn.



Davies Nia Haf (Rh-CTGC)

From: Lock William Michael (Rh-CTGC) on behalf of Polisi Cynllunio
Sent: 27 March 2015 15:05
To: Davies Nia Haf (Rh-CTGC)
Subject: FW: Cynllun Adnau - Cynllun Datblygu lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon
Attachments: Ymateb Cymdeithas yr Iaith ym Môn i.doc

From: Dylan Morgan [<mailto:> 
Sent: 27 March 2015 14:48
To: Polisi Cynllunio
Subject: Cynllun Adnau - Cynllun Datblygu lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon

Atodaf i'ch sylw ymateb ar ran Cymdeithas yr Iaith, Môn i'r Cynllun Adnau, Gweler yr ymateb am esboniad pam na ddefnyddiwyd y porth ymgynghori.

Yn gywir,
Dylan Morgan



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Defnydd swyddfa yn unig:

Rhif Cynrychiolydd: 2762/839

Dyddiad derbyn: 31/3/15
ebom

Dyddiad cydnabod:

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Adnau Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026
Ffurflen Sylwadau


Diogelu Data - Y modd y bydd eich sylwadau a'r wybodaeth a roddwch i ni yn cael eu defnyddio. Bydd yr holl wybodaeth a gyflwynir yn cael ei gweld yn llawn gan staff yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd sy'n ymdrin â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd). Bydd eich enw a'ch sylwadau fel y maent wedi'u nodi yn eich ffurflen sylwadau yn cael eu cyhoeddi, ynghyd ag ymateb y Cyngor. Bydd hyn yn gymorth i ddangos fod yr ymgynghoriad wedi'i wneud yn iawn. Nodwch hefyd y gall y ffurflen hon gael ei rhoi i unrhyw Ymchwiliad Cyhoeddus ar y CDLI ar y Cyd.

Byddai'n well gennym pe baech yn cyflwyno'ch sylwadau'n uniongyrchol ar-lein. Fel arall, gellir llenwi fersiwn electronig o'r ffurflen hon ar-lein yn www.gwynedd.gov.uk/cdli neu www.ynysmon.gov.uk/cdli. Dylech lenwi ffurflenni ar wahân ar gyfer pob sylw yr hoffech ei wneud. Cewch ffurflenni sylwadau ychwanegol gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd drwy ffonio 01286 685003 neu gellir eu llawr lwytho o wefan y Cyngor yn: www.gwynedd.gov.uk/cdli neu www.ynysmon.gov.uk/cdli neu gallwch lungopio'r ffurflen hon. Wrth wneud sylwadau, defnyddiwch dudalennau ychwanegol os oes angen, gan nodi rhif y dudalen yn glir.

RHAN 1: Manylion cyswllt

	Eich manylion/ Manylion eich cleient	Manylion yr Asiant (os yw hynny'n berthnasol)
Enw	Branwen Thomas, Ysgrifennydd, Menter Iaith Bangor.	Cynghorydd Elin Walker Jones (aelod o Bwyllgor Menter Iaith Bangor)
Cyfeiriad	d/o hunaniaith Adran Strategol a Gwella Cyngor Gwynedd	

Cod Post
Rhif Ffôn
Cyfeiriad e-bost



Nodiadau Canllaw

Rhowch eich sylwadau yn Rhan 2 y ffurflen hon. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os oes angen.
Dylech lenwi ffurflenni ar wahân ar gyfer pob sylw yr hoffech ei wneud.

Mae **Cwestiwn 2dd a 2e** yn gofyn am eich barn ar gadernid y Cynllun Adnau. Rhoddir manylion am y profion cadernid a gwybodaeth ychwanegol ar sut cânt eu defnyddio ar dudalen olaf y ffurflen hon.

Os hoffech i newidiadau gael eu gwneud i'r Cynllun Adnau, gofynnwn i chi fod mor benodol â phosib. Er enghraifft, os hoffech i destun newydd gael ei ychwanegu, nodwch y testun newydd ac esboniwch ymhle yr hoffech ei weld yn y Cynllun Adnau a pham. Hefyd, os hoffech ychwanegu polisi neu baragraff newydd neu eu haddasu, nodwch yn glir beth yw'r testun newydd ac esboniwch ymhle yr ydych chi'n meddwl y dylai fynd yn y Cynllun Adnau a pham.

Os hoffech gael gwared o safle neu gynnig addasiadau i safle sydd wedi'i ddynodi yn y Cynllun Adnau neu os hoffech gynnig safle newydd, gofynnwn i chi atodi cynllun graddfa 1:1250 neu 1:2500 sy'n nodi'n glir ffiniau'r safle. Os ydych yn cynnig safle newydd (un nad yw wedi'i gynnwys yn y Cynllun Adnau) rhaid i chi gynnwys asesiad safle manwl gyda'r ffurflen sylwadau yn unol â methodoleg asesu Safle Arfaethedig y Cyngor a'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd. Cewch hyd i'r fethodoleg asesu Safle Arfaethedig a'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd ar wefan y Cyngor yn: www.gwynedd.gov.uk/cdll neu www.ynysmon.gov.uk/cdll.

Cewch wybodaeth bellach ar y mater hwn gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ar **01286 685003** neu ar wefan y Cyngor yn: www.gwynedd.gov.uk/cdll neu www.ynysmon.gov.uk/cdll yn y llyfryn 'Canllawiau Safleoedd Amgen'.

Os yw newidiadau arfaethedig i gynllun datblygu yn cael effeithiau sylweddol ar gynaliadwyedd, bydd gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth Arfarnu Cynaliadwyedd berthnasol. Rhaid i'r wybodaeth hon fod yn gyson ag ystod a lefel manylder yr Arfarniad Cynaliadwyedd a gynhelir gan y Cynghorau. Dylai hefyd gyfeirio at yr un wybodaeth waelodlin wrth adnabod effeithiau sylweddol tebygol y polisi diwygiedig neu'r safle newydd.

Dylech gynnwys eich holl sylwadau ar y Cynllun Adnau gan nodi eich achos llawn ar y ffurflen swyddogol, gan ddefnyddio dogfennau ychwanegol os oes angen. Os ydych am weld mwy nag un newid ac yn ystyried nad yw'r Cynllun Adnau yn bodloni mwy nag un prawf cadernid, **dylech lenwi ffurflenni ar wahân ar gyfer pob sylw**. Yn yr un modd, os ydych am wneud sylwadau i gefnogi'r Cynllun Adnau neu elfennau unigol o'r Cynllun Adnau byddai'n ddefnyddiol pe baech yn gwneud y sylwadau hyn ar wahân. Nodwch os ydych yn cyflwyno deunydd arall i gefnogi'ch sylwadau.

Yr unig adeg y bydd gennych gyfle i gyflwyno gwybodaeth bellach i'r Ymchwiliad yw os yw'r Arolygwr yn eich gwahodd i ymateb i faterion y mae ef neu hi wedi'u codi. Nodwch na fydd gan yr Arolygwr sylwadau yr ydych wedi'u gwneud mewn ymateb i ymgynghoriadau blaenorol. Os nad ydych yn ystyried bod y Cynllun Adnau yn gadarn ac y dylid ei newid, esboniwch yn glir pam ydych chi'n meddwl bod angen y newidiadau. Os ydych yn meddwl bod angen gwneud newidiadau er mwyn i'r Cynllun Adnau fodloni un neu fwy o'r profion cadernid, dywedwch wrthym pa un / pa rai.

Os yw grŵp yn rhannu barn gyffredin ynghylch sut mae'n dymuno i'r Cynllun Adnau gael ei newid, bydd y Cynghorau'n derbyn deiseb wedi'i llofnodi. Wrth gyflwyno ffurflen sylwadau ar ran grŵp, dylai'r ffurflen sylwadau gynnwys manylion cyswllt unigolyn arweiniol yn Adran 1 a dylid nodi'r sylwadau'n glir ar y ffurflen sylwadau. Dylai'r deiseb sydd wedi'i llofnodi nodi'n glir faint o bobl sy'n cael eu cynrychioli a sut mae'r sylwadau wedi'u hawdurdodi. Nid yw llofnodi deiseb yn atal neb rhag cyflwyno ffurflenni unigol.

RHAN 2: Eich Sylwadau a Newidiadau a Awgrymir. (Defnyddiwch un adran Rhan 2 ar gyfer pob sylw yr hoffech ei wneud)

2a. Ar ba ran o'r Cynllun Adnau yr ydych chi'n gwneud sylwadau?

Polisi rhif (nodwch)	PS13 DARPARIAETH TAI
Paragraff rhif (nodwch)	
Cynigion/ Map Mewniodd (nodwch y rhif cyfeirnod)	
Map Cyfyngiadau	
Atodiadau (nodwch)	

2b. A ydych yn gwrthwynebu neu gefnogi?

Gwrthwynebu	☒	Cefnogi	☐
-------------	-------------------------------------	---------	--------------------------

2c. Rhowch fanylion eich sylwadau ar y Cynllun Adnau.

Croesewir amcanion y cynllun sy'n anelu at sicrhau bod mwy o dai o'r math sy'n adlewyrchu anghenion lleol: o safbwynt arddull, main ta cost yn cael eu darparu. Mae angen mwy o ddewis ymhlith tai sy'n fforddiadwy i gyflogau lleol a thai cymdeithasol.

Fodd bynnag, mae gwir bryder gan Menter Iaith Bangor ynglŷn â'r cannoedd o dai y bwriedir eu hadeiladu ym Mangor yn ychwanegol at y rhai sydd wedi eu caniatáu eisoes ac sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod Uned Bolisi y Cynllun Datblygu wedi gwneud yr ymchwil priodol i'r angen am ragor o dai newydd i bobl leol. Daw hyn yng ngolau'r ffaith bod cynifer o dai ar werth mewn rhai ardaloedd o Fangor gyda'u prisiau yn edrych fel eu bod yn gostwng. O gael cip olwg ar wefan RightMove dyma sydd ar werth ym Mangor LL57 (ddim yn cynnwys Bethesda; Pentir; Tregarth) ar hyn o bryd: 12 tŷ ac 11 fflat o dan 100k; 135 tŷ ac 11 fflat o dan 200k; 48 tŷ o dan 300k. Cyfanswm o 185 tŷ a 22 fflat rhwng £50,000 - £300,000.

Mae tir datblygu i'r dwyrain o Wynedd, ar hyd arfordir y gogledd yn prinhaus ond, serch hynny yn wynebu ymdopi a datblygiadau maestrefol i ddiwallu anghenion Swydd Gaer, a Glannau Merswy. Cred Menter Iaith Bangor fod y ddinas yn wynebu sgil effaith y datblygu cyson yma tua'r gorllewin ac yn wynebu dod yn faestref i ddinasoedd gogledd orllewin Lloegr. Yd' Uned Bolisi y Cynllun Datblygu wedi ystyried oblygiadau amgylcheddol a chynnaladwydd o adeiladu rhagor o dai nad ydynt eu hangen yn lleol? Os mai teithio rhyw awr i'r gwaith fydd y bobl ddaw i fyw i'r tai newydd yna dylid ystyried yr oblygiadau o ran llosgi tanwydd a'r effaith ar yr amgylchedd. Ydy hyn yn cyd-fynd â pholisïau cynnaladwydd Llywodraeth Cymru?

Os oes tystiolaeth gadarn mai ar gyfer pobl leol y mae'r stoc tai newydd ynghyd â'r tai sydd eisoes ar werth ym Mangor, yna derbynnir yr angen i adeiladu. Os nad hyn yw'r achos, yna hyd nes fo'r dystiolaeth ar gael ni ddylid adeiladu.

Dylid cydweithio gyda'r Brifysgol, er mwyn canfod faint o dai newydd sydd wirioneddol eu hangen. Adeiladwyd nifer helaeth o neuaddau preswyl i fyfyrwyr dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly mae canran sylweddol o dai a fflatiau myfyrwyr Bangor yn wag. Nid yw'r tai rhet yma'n addas ar gyfer y sector rhent gymdeithasol fel ag y manet gan fod eu rhent yn rhy uchel. Dylid ystyried ailddefnyddio rhain cyn adeiladu mwy o dai newydd. Dylid ailddefnyddio'r tai yma at bwrpas anheddau ar gyfer teulueodd, cyplau ac unigolion sydd angen cartref ym Mangor. Gwyddom fod angen tai ar gyfer pobl lleol ym Mangor, ond nid oes gwaith manwl wedi ei gwblhau yn y ddinas. Cynhaliwyd gwaith ymchwil ar lefel gymunedol yn sawl ardal yng Ngwynedd, yn dilyn caniatad gan y Cyngor i wneud hynny. Mae anghenion Bangor ychydig yn wahanol i weddill y sir; mae'n ganolfan ranbarthol sy'n cael ei chydabod fel hynny gan Lywodraeth Cymru, ac felly, er mwyn cynnal y fath waith ymhawil ym

Mangor, mi fyddai angen cydlynu'r gwaith yn ofalus, ac hefyd Penrhosgarnedd, sydd ar hyn o bryd yn ran o ward Pentir. Mae angen edrych yn ofalus ar ba rannu o Wynedd sy'n dod o fewn ffiniau dinas Bangor. Yn sicr, mae angen am dai o fewn ffiniau cymunedol y ddinas. Tai fforddadwy sydd angen; tai rhent a thai all gael eu prynu. Tai sy'n cael eu rheoli gan gymdeithasau tai os oes anegn. Tai ar gyfer teuluoedd efo tair llofft,, tai neu fflatiau ar gyfer unigolion neu gyplau neu deuluoedd bach; tai/fflatiau fforddadwy efo un, dwy neu dair llofft. Tai efo gerddi bach addas ar gyfer plant.

Dylid sicrhau fod gwaith ar is-adeiledd Bangor yn cyd-ddigwydd efo'r gwaith ar dai. Mae angen sicrhau fod is-adeiledd Bangor yn medru ymdopi efo'r anheddau ychwanegol. Nid yw'r system garthffosiaeth, heolydd, ysgolion, meddygfeydd, system ddŵr, gwasanaethau heddlu, ysbytai, heb son am y mwynderau cyffredinol yn addas ar gyfer y boblogaeth sydd ym Mangor yn barod heb son am ychwanegu atynt. Ni ddylid adeiladu dim os nad oes gan y trigolion fyndediad rhwydd at is-adeiledd addas gan gynnwys ysgolion, meddygon, siopau, mwynderau cymunedol.

Argymhellir edrych ar sut i aildefnyddio safleoedd tir llwyd cyn adeiladu o'r newydd ar safleoedd tir gwyrdd, gan gynnwys dymchwel tai os nad ydynt yn ffit i bwrpas. Dylid gwneud gwell defnydd o safleoedd tir llwyd er mwyn gwarchod safeleoedd tir gwyrdd a chaeau.

*Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os bydd angen.
Nodwch faint o dudalennau ychwanegol rydych wedi'u defnyddio.....*

2ch. Os yw eich sylw yn 2c yn fwy na 100 o eiriau, darparwch grynodeb os gwelwch yn dda (dim mwy na 100 o eiriau).

Rhaid cyflawni gwaith ymchwil cadarn, sy'n perthnasu yn benodol i Fangor i ddarganfod y gwir angen lleol am dai yn y ddinas. Mae cred gref iawn gennym nad rôl Bangor yw darparu maestrefi noswyllo i weithwyr gogledd ddwyrain Cymru a gogledd orllewin Lloegr. Bydd cyhoeddi Cynllun Datblygu terfynol sy'n seiliedig ar hynny yn niweidiol i hunaniaeth Gymreig Bangor ac yn tanseilio'r Gymraeg.

2d Rhowch fanylion y newidiadau yr hoffech eu gweld i'r Cynllun Adnau																			
Asesiad cyflawn o wir anghenion tai dinas Bangor a'r cyffiniau (gan gynnwys Penrhosgarnedd) yn hytrach na derbyn ffigyrau Llywodraeth Cymru.																			
2dd. Ydi'r Cynllun yn gadarn?																			
Ydi				☐								Nac ydi				☐			
2e. Os ydych chi'n meddwl nad yw'r Cynllun Adnau yn gadarn, pa brawf cadernid ydych chi'n meddwl y mae'n ei fethu? (Ticiwch isod os gwelwch yn dda) <i>Rhoddir mwy o fanylion am y profion cadernid ar gefn y ffurflen hon</i>																			
Gweithdrefnol				Cysondeb								Cydlyniad ac Effeithiolrwydd							
P1	☐	P2	☐	C1	☐	C2	☐	C3	☐	C4	☒	CE 1	☐	CE 2	☒	CE 3	☐	CE 4	☐

Rhan 3: Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar y cam hwn o broses y CDLI ar y Cyd, dim ond sylwadau ar bapur y gallwch eu gwneud (a elwir yn 'sylwadau ysgrifenedig'). Fodd bynnag, gall yr Arolygwr alw ar y rheini sydd am newid y Cynllun i ymddangos a siarad â'r Arolygwr mewn 'sesiwn gwrandawriad' yn ystod yr Ymchwiliad Cyhoeddus. Dylech gofio y bydd yr Arolygwr yn rhoi'r un pwys i'ch sylwadau ysgrifenedig ag i'r rheini a wnewch ar lafar yn y sesiwn gwrandawriad.

3a. A ydych am i'ch sylwadau gael eu hystyried fel 'sylwadau ysgrifenedig' neu a hoffech siarad mewn sesiwn gwrandawriad yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus? (Ticiwch un o'r isod)

Nid wyf am siarad mewn sesiwn gwrandawriad ac rwy'n fodlon i'm sylwadau ysgrifenedig gael eu hystyried gan yr Arolygwr.



Hoffwn siarad mewn sesiwn gwrandawriad.



3b. Os hoffech siarad, cadarnhewch pam rydych yn ystyried ei bod hi'n angenrheidiol i chi siarad yn y Gwrandawriad.

3c. A fydddech yn hoffi cael gwybod am y canlynol (Ticiwch y blychau perthnasol)

Cyflwyno'r dogfennau a'r dystiolaeth i'r archwiliad



Cyhoeddi adroddiad yr Arolygydd



Mabwysiadu'r Cynllun



Os ydych wedi darparu dogfennau ychwanegol i gefnogi'ch sylwadau, rhestrwch hwy isod:

Llofnod:

Elin Walker Jones (ar ran Pwyllgor Menter Iaith Bangor)

Dyddiedig: 30-3-15

DIOLCH AM EICH SYLWADAU AR Y CYNLLUN ADNAU

Cofiwch gynnwys unrhyw ddogfennau perthnasol (e.e. Arfarniad Cynaliadwyedd) gyda'r ffurflen hon.

Dylech ddychwelyd ffurflenni sylwadau wedi'u llenwi i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd:

AR-LEIN – drwy lenwi'r ffurflen electronig yn www.gwynedd.gov.uk/cdli neu www.ynysmon.gov.uk/cdli

DRWY E-BOST - polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

DRWY'R POST - ei hanfon i: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Llawr Cyntaf, Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor, Gwynedd LL57 1DT

**DYLECH DDYCHWELYD Y FFURFLENNI SYLWADAU DDIM HWYRACH NA 5.00yh ar 31 Mawrth 2015
NI FYDD SYLWADAU A DDERBYNNIR WEDI'R AMSER A'R DYDDIAD YMA YN CAEL EU HYSTYRIED**

Profion Cadernid

Prawf	Profion Gweithdrefnol
P1	Nid yw wedi'i baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni yn cynnwys y Cynllun Cyswllt Cymunedol.
P2	Nid yw'r cynllun a'i bolisiau wedi bod drwy Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol.
	Profion Cysondeb
C1	Mae'n gynllun defnydd tir nad yw'n rhoi ystyriaeth i gynlluniau, polisiau a strategaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r ardal neu ardaloedd cyfagos.
C2	Nid yw'n rhoi ystyriaeth i bolisi cenedlaethol.
C3	Nid yw'n rhoi ystyriaeth i Gynllun Gofodol Cymru.
C4	Nid yw'n rhoi ystyriaeth i'r strategaeth gymunedol berthnasol.
	Profion Cydlynid ac Effeithiolrwydd
CE1	Nid yw'r cynllun yn gosod strategaeth gydlynol ble mae ei bolisiau a'i ddynodiadau yn llifo'n rhesymegol ohono a/neu pan fo materion trawsffiniol yn berthnasol, nid yw'n gydnaws â'r cynlluniau datblygu a ddarparwyd gan awdurdodau cyfagos.
CE2	Nid yw'r strategaethau, y polisiau na'r dynodiadau'n realistig nac yn briodol o ystyried y dewisiadau amgen a/neu nid ydynt wedi'u seilio ar sail tystiolaeth gredadwy.
CE3	Nid oes mecanwaith clir ar gyfer gweithredu a monitro.
CE4	Nid yw'n rhesymol hyblyg i alluogi iddo ymdrin ag amgylchiadau sy'n newid.

Noda Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 mai pwrpas ymchwiliad i Gynllun Datblygu Lleol (y Cynllun) yw ystyried a yw'n "gadarn". Golyga hyn y dylai unrhyw un sydd am roi sylwadau ar y Cynllun Adnau neu wrthwynebu iddo geisio dweud pam nad yw'n gadarn a beth sydd ei angen er mwyn ei wneud yn gadarn. Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried cadarn i olygu ei ystyr gwreiddiol o "*dangos barn dda*" a "*y gellir ymddiried ynddo*". Er mwyn asesu'r Cynllun Adnau, rydym yn defnyddio'r 10 prawf uchod. Bydd y Cynllun Adnau yn cael ei archwilio gan Arolygwr annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru a thasg yr Arolygwr fydd ystyried a yw'r Cynllun yn gadarn.

Os ydych yn cynnig newid i'r Cynllun Adnau, fe ddylech nodi'n glir pa brawf/broffion cadernid y credwch y mae'r Cynllun Adnau yn ei fethu/eu methu. Mae'r profion mewn tri grŵp – 'Gweithdrefnol' (dau prawf); 'Cysondeb' (pedwar prawf) a 'Cydlynid ac Effeithiolrwydd' (pedwar prawf). Os hoffech wneud sylwadau ar y ffordd y mae'r Cynghorau wedi paratoi'r Cynllun Adnau, mae'n debygol y byddai'ch sylwadau neu'ch gwrthwynebiadau yn disgyn o dan un o'r profion gweithdrefnol. Os hoffech wneud sylwadau neu wrthwynebu i gynnwys y Cynllun Adnau, gallai fod yn gymorth i chi edrych ar y profion 'cysondeb' a 'cydlynid ac effeithiolrwydd'.

Davies Nia Haf (Rh-CTGC)

From: Jones Gerallt (Rh-CTGC) on behalf of Polisi Cynllunio
Sent: 31 March 2015 13:47
To: Davies Nia Haf (Rh-CTGC)
Subject: FW: Ymgynghoriad Cyhoeddus Cynllun Adnau / Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd – Gwynedd a Môn

From: [REDACTED] **On Behalf Of** [REDACTED]
Sent: 31 March 2015 13:55
To: Polisi Cynllunio
Subject: Ymgynghoriad Cyhoeddus Cynllun Adnau / Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd – Gwynedd a Môn

I Sylw Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn -

Rwyf yn bryderus iawn o'r hyn sydd yn cael ei gynnig yng Nghynllun Datblygu Lleol siroedd Gwynedd ac Ynys Môn, ac oblygiadau hynny i ddyfodol cymunedau Cymraeg y ddwy sir.

Mae'r cynllun am weld tir yn cael ei rhyddhau er mwyn adeiladu ychydig yn llai na 8000 o unedau tai. Rwyf yn grediniol fy marn bod y ffigwr hwn yn anghywir, a bod angen selio'r Cynllun Datblygu ar anghenion tai'r boblogaeth leol. Yn fy nhyb i, nid oes digon o waith wedi ei gwblhau er mwyn mesur beth yn union yw anghenion tai'r trigolion lleol yn y ddwy sir.

Rwyf hefyd yn grediniol fy marn, nad oes digon o waith ymchwil wedi ei gwblhau er mwyn deall beth yn union fyddai oblygiadau gweithredu'r Cynllun Datblygu ar ddyfodol ein cymunedau Cymraeg bregus.

